HSC(6) 70-26 Papur 3/Paper 3

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Pwysau Iach : Cymru Iach 2019 Llywodraeth Cymru

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Atal Iechyd Gwael – Gordewdra

19/11/2025

Ym mis Hydref 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ar Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach 2019 Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys 18 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **3**

**Ymateb i'r 18 o argymhellion** ........ **4**

Argymhelliad 1 ........ 4
Argymhelliad 2 ........ 4
Argymhelliad 3 ........ 6
Argymhelliad 4 ........ 7
Argymhelliad 5 ........ 8
Argymhelliad 6 ........ 8
Argymhelliad 7 ........ 9
Argymhelliad 8 ........ 10
Argymhelliad 9 ........ 11
Argymhelliad 10 ........ 12
Argymhelliad 11 ........ 12
Argymhelliad 12 ........ 13
Argymhelliad 13 ........ 13
Argymhelliad 14 ........ 14
Argymhelliad 15 ........ 14
Argymhelliad 16 ........ 15
Argymhelliad 17 ........ 16
Argymhelliad 18 ........ 16

# Cyflwyniad

Pwysau Iach: Cymru Iach yw ein strategaeth 10 mlynedd i atal a lleihau gordewdra ac fe'i cefnogir gan gyfres o gynlluniau cyflawni. Cyhoeddwyd y trydydd Cynllun Cyflawni ar gyfer 2025-27 ar 30 Medi 2025. Mae'n adeiladu ar gamau a gymerwyd hyd yma ac yn nodi cyfres o themâu, nodau a chamau gweithredu i helpu i ganolbwyntio ar yr elfennau lle gallwn sicrhau'r newid mwyaf gyda'n gilydd ac, wrth wneud hynny, cefnogi amcanion allweddol y llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc wrth wraidd y camau gweithredu a'r nodau.

Byw gyda gorbwysau a gordewdra yw un o brif achosion y blynyddoedd a dreulir yn byw mewn iechyd gwael a rhagwelir y bydd gordewdra yn disodli ysmygu fel yr achos mwyaf o salwch y gellir ei atal, gan gynnwys diabetes math 2, clefyd cardiofasgwlaidd a rhai canserau, yng Nghymru. Mae lefelau gordewdra yng Nghymru, ac ar draws y byd, wedi bod yn cynyddu'n raddol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r tueddiadau hyn wedi cyfrannu at y ffaith bod dros 60% o oedolion yng Nghymru yn byw gyda gorbwysau neu ordewdra. Mae bron i chwarter y plant oedran derbyn yn byw gyda gorbwysau neu ordewdra, sy'n dangos pwysigrwydd sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi o oedran cynnar.

Mae achosion gordewdra yn amlochrog. Mae ein hamgylchedd bwyd wedi datblygu i flaenoriaethu cyfleustra ar draul iechyd gyda bwydydd sy'n llawn egni sy'n cynnwys llawer iawn o fraster neu siwgr. Rydym yn mynd yn llai a llai egnïol fel cenedl oherwydd patrymau gweithio a theithio o ddydd i ddydd, a ni yw'r genhedlaeth gyntaf sydd angen gwneud penderfyniad bwriadol i ymgorffori gweithgarwch corfforol yn ein bywydau bob dydd.

Felly, mae'r Cynllun Cyflawni newydd hefyd yn canolbwyntio ar ddull system gyfan, trawslywodraethol a thrawsgymdeithasol i roi'r newidiadau amgylcheddol a strwythurol sydd eu hangen ar waith i fynd i'r afael â'n hamgylcheddau sy'n hyrwyddo gordewdra (obesogenic).

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu hadroddiad, Atal Iechyd Gwael - Gordewdra. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# Ymateb i'r 18 o argymhellion

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y dulliau a ddefnyddir mewn mannau eraill, yn enwedig yn Lloegr a'r Alban i gymhwyso addasiadau i ddata taldra a phwysau hunangofnodedig, gyda'r bwriad o gyflwyno data wedi'u haddasu yng Nghymru i adlewyrchu cyfraddau lefelau gorbwysau neu ordewdra yn fwy cywir.

Ymateb: Derbyn.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27, a gyhoeddwyd ar 30 Medi, yn nodi strwythurau llywodraethiant ac adrodd cryfach fel y gellir cael atebolrwydd clir ar gyfer cynnydd tuag at ein canlyniadau cyffredin, gyda chefnogaeth fframwaith nodau a dangosyddion newydd Pwysau Iach: Cymru Iach.

Drwy ddatblygu'r fframwaith canlyniadau a mesur, a fydd yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn gyntaf y cynllun cyflawni, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau a goblygiadau o ran adnoddau'r dulliau a ddefnyddir mewn mannau eraill i gymhwyso addasiadau i ddata taldra a phwysau hunangofnodedig. Mae bod yn gyson â'r dull a ddefnyddir ym mhob arolwg yn bwysig er mwyn sicrhau bod modd cymharu data ar gyfer Cymru dros amser i asesu tueddiadau.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol


## Argymhelliad 2

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth gryfach wrth fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau ar waith i gefnogi pobl sy'n byw gyda gorbwysau a gordewdra yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn dull trawslywodraethol, system gyfan. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae ei dull yn nodi:

- llinellau cyfrifoldeb clir am gyflawni a monitro cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach;
- sut y dylai ei phartneriaid gydweithio ar draws Cymru i leihau gordewdra,
- sut y bydd ei phartneriaid yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni eu cyfrifoldebau yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi trefniadau ac ymrwymiadau llywodraethiant ac atebolrwydd newydd a chliriach i gryfhau ac ymgorffori ymhellach ddulliau system gyfan ar lefel gymunedol a chenedlaethol, fel y nodir isod:




Bydd y trefniadau newydd hyn yn galluogi atebolrwydd clir ar gyfer cynnydd tuag at ein canlyniadau cyffredin, gyda chefnogaeth fframwaith nodau a dangosyddion newydd Pwysau Iach: Cymru Iach. Bydd gweithgorau thematig newydd yn cael eu sefydlu, i gynnwys partneriaid cenedlaethol a lleol, i helpu i lywio sut rydym yn bwrw ymlaen â'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn.

Yn ogystal â'r gweithgorau thematig, bydd grŵp trosolwg strategol newydd yn sicrhau bod ein strategaeth a nodau ein cynllun cyflawni yn cael eu cydgysylltu, eu cyfathrebu, eu monitro a'u gwerthuso yn effeithiol. Bydd bwrdd cenedlaethol

yn asesu cynnydd ac atebolrwydd yn y system. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio ein dull gweithredu.

Ar lefel ranbarthol, bydd cymorth yn cael ei ddarparu i dimau iechyd cyhoeddus lleol o fewn byrddau iechyd i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau gweithredu ymhellach, wedi'u cynhyrchu ar y cyd â'u partneriaid. Bydd y cynlluniau gweithredu yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwahanol ymyriadau i wneud y gorau o'u heffaith debygol a mesur a gwerthuso canlyniadau.

Drwy'r cynllun i gyd, mae pob thema yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i ymgorffori dulliau system gyfan ar lefel genedlaethol, gan sicrhau bod pob rhan o'r system yn cydlynu ac yn ymateb gyda'i gilydd i'n nodau cyffredin.

Goblygiadau ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- rhoi diweddariad blynyddol i'r Senedd ar y cynnydd o ran gweithredu cynllun cyflawni *Pwysau Iach: Cymru Iach*;
- cyhoeddi canlyniadau a chyflawniadau cynllun cyflawni *Pwysau Iach: Cymru Iach* ar ddiwedd pob cylch dwy flynedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27, a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2025, yn nodi ymrwymiad i gyhoeddi ac adrodd yn erbyn fframwaith newydd o nodau a dangosyddion. Byddwn yn cwblhau'r fframwaith hwn yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun cyflawni newydd ac yn ystyried y dulliau adrodd yn ôl i'r Senedd.

Nod datblygu fframwaith canlyniadau a mesur yw deall a monitro'n well y cynnydd rydym yn ei wneud. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd yr amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwysau iach a natur hirdymor y newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud. Bydd cyfres o nodau, sy'n seiliedig ar grwpiau poblogaeth ac is-systemau, ac sy'n cefnogi pob thema yn y cynllun cyflawni hwn, yn canolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen. Bydd dangosyddion cysylltiedig yn cael eu datblygu i'n galluogi i fesur a ydym yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Goblygiadau ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu archwiliad o ddarpariaeth gwasanaethau rheoli pwysau oedolion ym mhob bwrdd iechyd i ganfod anghenion darpariaeth yn y dyfodol ar draws yr holl fyrddau iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- manylion amseroedd aros gwasanaethau rheoli pwysau, i oedolion a phlant;
- nifer y bobl sy'n aros am wasanaethau rheoli pwysau ym mhob bwrdd iechyd;
- manylion cyfansoddiad y timau rheoli pwysau, e.e. nifer y seicolegwyr a'r dietegwyr sydd ar gael.

Dylid defnyddio canlyniadau'r archwiliad hwn i ganfod digonolrwydd gwasanaethau lefel 2 ym mhob bwrdd iechyd i ddiwallu ei anghenion poblogaeth priodol.

Ymateb: Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwaith o ddatblygu llwybr clinigol newydd ar gyfer trin a rheoli gordewdra fel cyflwr cronig, gan gynnwys rôl cyffuriau colli pwysau. Nod y gwaith o ddatblygu'r llwybr newydd yw cynyddu capasiti a gallu ar gyfer sicrhau mynediad teg at wasanaethau ar draws y system gofal iechyd, gan gynnwys lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, ac ymateb i raddfa'r her o reoli a thrin gordewdra.

Bydd y gwaith hwn yn adolygu darpariaeth a chapasiti gwasanaethau presennol o fewn gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol, gan gynnwys o fewn y timau amlddisgyblaethol. Bydd yn cynnwys:

· Cynnal adolygiad o'r cefndir darparu mewn perthynas â chapasiti presennol gwasanaethau y tu allan i'r gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol, megis o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r dulliau sydd ar waith ar gyfer Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan mewn lleoliadau gofal sylfaenol

· Manteisio ar ddulliau arfer gorau ledled Cymru, gan gynnwys y gwerthusiad o gynlluniau peilot plant a theuluoedd PIPYN, gan sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad bywyd yn cael blaenoriaeth

• Adolygu modelau gweithredu ehangach ledled y DU ar gyfer eu cymhwyso yng nghyd-destun Cymru

• Sefydlu adolygiad clinigol o'r llwybr rheoli pwysau presennol ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol yng ngoleuni'r safonau ansawdd newydd ar gyfer asesu a rheoli gordewdra yn glinigol, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar 5 Awst 2025

• Ystyried unrhyw gynnig a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a/neu Fyrddau Iechyd mewn perthynas â'r Rhaglen Arloesi'r Llwybr Gordewdra

• Ystyried economïau ehangach y farchnad sy'n dod i'r amlwg o ran cyffuriau colli pwysau

• Adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw sefyllfa bolisi newydd sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i symud o fodel gofal yn seiliedig ar risg i un ar gyfer rheoli cyflwr cronig gydol oes.

Goblygiadau ariannol – i'w pennu yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwaith.

## Argymhelliad 5

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ar gyfer datblygu llwybr cenedlaethol ar gyfer rheoli pwysau mamolaeth.

Ymateb: Derbyn.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi ymrwymiad i fabwysiadu dull gwella parhaus ar gyfer y Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i gyhoeddi canllawiau i gefnogi rheoli pwysau yn ystod beichiogrwydd erbyn diwedd y cynllun cyflawni.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 6

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a drefnwyd bod hyfforddiant stigma ar gael i bob bwrdd iechyd. Dylai hefyd ddarparu manylion am lefel y defnydd o'r hyfforddiant hwn a sut y mae hyn yn cael ei fonitro.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae hyfforddiant stigma ar gael i bob bwrdd iechyd drwy raglen 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae dau gwrs 'Cael Sgyrsiau Pwysau Iach' ar-lein ar gael ar lefel 1 a lefel 2. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i ddatblygu i gefnogi pobl mewn gwasanaethau iechyd a sefydliadau partner i gael sgyrsiau tosturiol am bwysau iach. Mae'r hyfforddiant dwyieithog ar gael i bob bwrdd iechyd.

Mae'r rhaglen 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' yn cael ei monitro gan ddangosfwrdd rhyngweithiol newydd, sef Dangosfwrdd Monitro Perfformiad Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, a ddatblygwyd i gefnogi'r rhaglen genedlaethol a phartneriaid y rhaglen ledled Cymru. Mae'r dangosfwrdd yn galluogi rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr rhanbarthol y rhaglen o fewn Byrddau Iechyd, ac arweinwyr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, i asesu faint sy'n manteisio ar yr hyfforddiant.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganfyddiadau adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r Rhaglen Mesur Plant ac a yw'n bwriadu gwneud newidiadau o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bellach, mae'r Rhaglen Mesur Plant wedi cael ei hailsefydlu yn dilyn COVID 19. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhau i olrhain carfanau drwy'r ysgol gynradd a gwerthuso ymyriadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried rhinweddau a goblygiadau o ran adnoddau ail bwynt mesur, pan fydd disgyblion sawl blwyddyn yn hŷn.

Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o ddull newydd o ymdrin â llywodraethiant, atebolrwydd a monitro a nodir yn y Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach newydd, sy'n nodi ymrwymiad i ddatblygu fframwaith canlyniadau a mesur, yn seiliedig ar gyfres o nodau. Bydd y fframwaith yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn gyntaf y cynllun cyflawni.

Yn ogystal ag olrhain carfanau drwy'r ysgol gynradd, ffocws allweddol y cynllun yw galluogi mwy o blant i ddechrau'r ysgol â phwysau iach. Mae'r blynyddoedd cynnar yn amser hanfodol ar gyfer twf iach ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi o oedran cynnar. Mae tystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod llawer o fabanod yn y DU yn cael mwy o galorïau nag sydd angen, a bod gorbwysedd yn ystod babanod yn para gydol plentyndod ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r Comisiwn Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN) wedi cynghori llywodraethau i ystyried ffyrdd o

fonitro cyffredinrwydd gorbwysedd a gorfwydo mewn babanod, a ffyrdd o fynd i'r afael â chymeriant egni uchel. Bydd cynllun gweithredu newydd ar gyfer bwydo babanod yn nodi ymrwymiad i gefnogi twf cyson ymhlith plant ifanc, gan gynnwys drwy'r ffyrdd canlynol:

- Cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron, gan sicrhau bod mwy o fabanod yn elwa ar laeth y fron a sefydlu bwydo ar y fron fel y norm diwylliannol
- Grymuso a galluogi rhieni i ddarparu deietau maethlon i'w plant drwy wneud bwydo iach yn ddewis hawdd yn y mannau lle mae teuluoedd yn byw, yn gweithio ac yn treulio amser
- Coladu yn genedlaethol fesuriadau pwysau a hyd Plant Iach Cymru ac ystyried cyfleoedd ar gyfer mesuriadau ychwanegol drwy wasanaethau Ymwelwyr Iechyd manylach fel rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i nodi'n gynnar unrhyw gynnydd mewn pwysau nad yw'n iach ac i ymyrryd yn gynnar i gefnogi ymddygiadau iachach yn unol ag argymhellion SACN i lywodraethau.

Goblygiadau ariannol – bydd goblygiadau o ran cost os bydd ail bwynt mesur yn cael ei ddatblygu.

## Argymhelliad 8

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Bwydo Babanod, blaenoriaethau'r cynllun a manylion am sut y caiff ei fonitro.

Ymateb: Derbyn.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu newydd ar gyfer bwydo babanod, a fydd yn cefnogi ein babanod a'n plant o'u genedigaeth i oedran ysgol. Bydd yn:

- adeiladu ar Gynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron 2019 i 2024 i barhau i gynyddu nifer y babanod sy'n elwa ar gael eu bwydo ar y fron
- cefnogi babanod sy'n cael eu bwydo â fformiwla drwy weithredu argymhellion priodol adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- cefnogi'r gwaith o gyflwyno bwydydd solet i sefydlu dewisiadau bwyd, patrymau deietegol a thwf iach
- ymgorffori'r rhain a'r camau gweithredu er mwyn cynnwys cymaint â phosibl o weithgarwch corfforol yn ein rhaglenni cymorth i deuluoedd, fel Dechrau'n Deg.

Goblygiadau ariannol – i'w pennu yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwaith.

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu archwiliad o ddarpariaeth gwasanaethau rheoli pwysau plant ym mhob bwrdd iechyd i ganfod anghenion darpariaeth yn y dyfodol ar draws yr holl fyrddau iechyd. Dylai hyn gynnwys manylion cyfansoddiad y timau rheoli pwysau, e.e. nifer y seicolegwyr a'r dietegwyr sydd ar gael. Dylid defnyddio'r canlyniadau i ganfod digonolrwydd gwasanaethau rheoli pwysau plant ym mhob bwrdd iechyd i ddiwallu ei anghenion poblogaeth priodol.

Ymateb: Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwaith o ddatblygu llwybr clinigol newydd ar gyfer trin a rheoli gordewdra fel cyflwr cronig, gan gynnwys rôl cyffuriau colli pwysau. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i blant. Nod y gwaith o ddatblygu'r llwybr newydd yw cynyddu capasiti a gallu ar gyfer sicrhau mynediad teg at wasanaethau ar draws y system gofal iechyd, gan gynnwys lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, ac ymateb i raddfa'r her o reoli a thrin gordewdra.

Bydd y gwaith hwn yn adolygu darpariaeth a chapasiti gwasanaethau presennol o fewn gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol, gan gynnwys o fewn y timau amlddisgyblaethol. Bydd yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad o'r cefndir darparu mewn perthynas â chapasiti presennol gwasanaethau y tu allan i'r gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol, megis o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r dulliau sydd ar waith ar gyfer Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan mewn lleoliadau gofal sylfaenol
- Manteisio ar ddulliau arfer gorau ledled Cymru, gan gynnwys y gwerthusiad o gynlluniau peilot plant a theuluoedd PIPYN, gan sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad bywyd yn cael blaenoriaeth
- Adolygu modelau gweithredu ehangach ledled y DU ar gyfer eu cymhwyso yng nghyd-destun Cymru
- Sefydlu adolygiad clinigol o'r llwybr rheoli pwysau presennol ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol yng ngoleuni'r safonau ansawdd newydd ar gyfer asesu a rheoli gordewdra yn glinigol, a gyhoeddwyd gan y

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar 5 Awst 2025

- Ystyried unrhyw gynnig a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a/neu Fyrddau Iechyd mewn perthynas â'r Rhaglen Arloesi'r Llwybr Gordewdra
- Ystyried economïau ehangach y farchnad sy'n dod i'r amlwg o ran cyffuriau colli pwysau
- Adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw sefyllfa bolisi newydd sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i symud o fodel gofal yn seiliedig ar risg i un ar gyfer rheoli cyflwr cronig gydol oes.

Goblygiadau ariannol – i'w pennu yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwaith.

## Argymhelliad 10

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer gwerthuso'r Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd, yn ogystal â'r posibilrwydd i gyflwyno'r cynlluniau peilot hyn yn ehangach.

Ymateb: Derbyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal gwerthusiad o'r Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod y tri mis nesaf.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi ymrwymiad, ar ôl gwerthuso'r model PIPYN, i gyflwyno model wedi'i ddiweddaru ledled Cymru, gan flaenoriaethu ardaloedd sydd â'r lefelau mwyaf o ordewdra ymhlith plant.

Goblygiadau ariannol – i'w pennu yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwaith.

## Argymhelliad 11

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ynghylch sut y gwariwyd y £3 miliwn a ddarparwyd i fyrddau iechyd i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n cwmpasu cymorth seicolegol i bobl sy'n byw gyda gorbwysau a gordewdra. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o nifer y seicolegwyr ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ar ba gam o'r llwybr y maent yn gweithio.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £2.9 miliwn i ddyraniadau craidd byrddau iechyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau rheoli pwysau

arbenigol yn unol â'r canllawiau a nodir o fewn y Llwybrau Rheoli Pwysau Cymru Gyfan, sy'n cwmpasu cymorth seicolegol.

Byrddau iechyd lleol sy'n penderfynu ar ddarpariaeth gwasanaethau rheoli pwysau, gan gynnwys nifer y seicolegwyr yng Nghymru, a hynny mewn ymateb i anghenion y boblogaeth leol.

Wrth ddatblygu'r llwybr clinigol newydd ar gyfer trin a rheoli gordewdra, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill ar gapasiti a gallu ar draws y system i gyflawni gwahanol gamau'r llwybr.

Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth seicolegol.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 12

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn cefnogi Pwysau Iach: Cymru Iach.

Ymateb: Derbyn

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi y bydd y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn sail i'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, yn enwedig mewn perthynas â gwella'r ddarpariaeth o fwyd iachach, o ffynonellau lleol, a mynediad ato. Mae trafodaethau ynghylch y strategaeth bwyd cymunedol wedi pwysleisio'r cyfle unigryw i gefnogi cynnydd mewn tyfu cymunedol a garddwriaeth, gan ddefnyddio mannau gwyrdd ac annog arallgyfeirio ar ffermydd, i hyrwyddo'r cyflenwad lleol o gynnyrch bwyd ffres sy'n llawn maetholion.

Goblygiadau ariannol: Amherthnasol

## Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu rhaglen debyg i raglen Reformulation for Health Llywodraeth yr Alban, sy'n helpu busnesau llai yng Nghymru i ddatblygu opsiynau iachach yn unol â nodau iechyd cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cefnogi gweithio gyda busnesau i ddatblygu opsiynau iachach. Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i ni. Yn hytrach nag efelychu Rhaglen 'Reformulation for Health' Llywodraeth yr Alban, rydym wedi ymrwymo yn ein cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, sydd newydd ei gyhoeddi, i barhau i weithio gyda'r sector bwyd a diod yng Nghymru i gefnogi ailfformiwleiddio ar gyfer opsiynau iachach drwy gyfuniad o weithio gyda'n rhwydweithiau clwstwr,

ein gwaith Mewnwelediad i'r Farchnad, a thrwy gymorth technegol gan y canolfannau technoleg bwyd rydym yn eu cefnogi.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y newidiadau a wnaed i'r Cynllun Cychwyn Iach yn yr Alban, a gynyddodd werth talebau yn unol â chwyddiant, ehangu cymhwysedd i'r holl deuluoedd sy'n cael credyd cynhwysol a chyflwyno cofrestru awtomatig, er mwyn asesu a fyddai'r newidiadau hyn yn cynyddu ymhellach y nifer sy'n defnyddio'r cynllun yng Nghymru.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw'r Cynllun Cychwyn Iach wedi'i ddatganoli i Gymru; felly, ni all Llywodraeth Cymru newid gwerth y cymorth a ddarperir, ehangu'r meini prawf cymhwysedd, na newid y mecanwaith cofrestru.

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Cychwyn Iach ac yn gwerthuso cyfleoedd i gefnogi ymhellach y teuluoedd ar incwm isel yng Nghymru i gael gafael ar fwyd iachach. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, bydd y Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer Bwydo Babanod yn gyfrwng i fwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n benodol i Gymru o ran Cychwyn Iach, gan gynnwys sut y gallwn sicrhau bod y rhaglen mor effeithiol â phosibl drwy bolisïau presennol Cymru, fel Dechrau'n Deg.

Bydd gwerth y cymorth ariannol a ddarperir gan y Cynllun yn cynyddu o fis Ebrill 2026 ymlaen i £4.65 yr wythnos ar gyfer menywod beichiog cymwys a phlant o'u pen-blwydd cyntaf hyd at eu pedwerydd pen-blwydd, ac i £9.30 yr wythnos ar gyfer babanod hyd at flwydd oed.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru, o fewn dwy flynedd i'w cyflwyno, roi diweddariad ar yr effaith y mae Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 wedi'i chael wrth helpu i drin gordewdra yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal gwerthusiad llawn o effaith Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Bydd y gwerthusiad hwn yn ystyried pa mor llwyddiannus y mae'r rheoliadau wedi bod wrth gyflawni

eu nodau arfaethedig o ran iechyd y cyhoedd, ac a fu unrhyw effeithiau anfwriadol yn sgil y mesurau. Yn unol â'n cyfrifoldebau statudol, ac fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau, bydd yr adroddiad gwerthuso cyntaf yn cael ei gyhoeddi o fewn pum mlynedd wedi i'r rheoliadau ddod i rym (26 Mawrth 2026). Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein hasesiadau o fewn amserlen fyrrach, gan y byddai hyn yn annhebygol o ddarparu darlun cywir o effeithiau'r polisi. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yr adroddiad gwerthuso cyntaf ar gael.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol

## Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n monitro cydymffurfedd awdurdodau lleol â'r rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ar hyn o bryd ac a oes ganddi gynlluniau i gryfhau'r broses hon pan fydd y rheoliadau wedi'u diweddaru yn dod i rym.

Ymateb: Derbyn

Awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, yn dibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth arlwyo o fewn yr ysgol. Yn yr un modd, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am gymryd camau i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion cofrestredig. Mae dyletswydd arall yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol am y camau a gymerwyd i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion yr ysgol. Mae dyletswydd hefyd ar y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i roi gwybod i Weinidogion Cymru am y camau a gymerir mewn ysgolion a gynhelir i hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r adolygiad parhaus o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn cael ei gynnal ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar gyd-ddatblygu, profi, a chyflwyno Rheoliadau newydd a fydd yn llywodraethu pa fwyd a diod y gellir eu cynnig neu na ellir eu cynnig mewn ysgolion.

Bydd canllawiau statudol wedi'u cryfhau a'u diweddaru yn cefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldeb i gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion newydd, a bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, gan gynnig cymorth ochr yn ochr â thystysgrifau cydymffurfio gwirfoddol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gymorth

trawslywodraethol i gryfhau dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau o fewn y system.

Goblygiadau ariannol: Amherthnasol

## Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y cyllid a ddarperir fesul pen ar gyfer ei pholisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn parhau i wrando ar waith mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol. Fe wnaeth eu barn lywio adolygiad annibynnol o'r gyfradd fesul uned ar gyfer prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) a'r penderfyniad dilynol i'w chynyddu o £2.90 i £3.20 o fis Ionawr 2024 ymlaen, ynghyd â rhyddhau £3.3m o gyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cynnig UPFSM yn gyflym yn ystod yr ail gam cyflwyno.

Roedd hyn yn cyfateb i fuddsoddiad ychwanegol mewn llywodraeth leol o dros £10m yn ystod 2023/24 a 2024/25, ac roedd yn cynrychioli cynnig llawer mwy ffafriol na'r gyfradd ariannu o £2.53 y pryd a ddarparwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi bwyta'n iach mewn ysgolion, yn ddiweddar, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion i adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion fel y maent yn gymwys i feithrinfeydd ac ysgolion cynradd a gynhelir. Mae'r crynodeb ysgrifenedig o'r ymatebion bellach wedi'i gyhoeddi. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio cynlluniau tymor hwy yn y maes hwn, a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy'r gwerthusiad annibynnol parhaus o'r cynnig i holl blant ysgolion cynradd.

Goblygiadau Ariannol: - Dim ar hyn o bryd - byddai angen defnyddio cyllidebau presennol i dalu am unrhyw gynnydd yn y dyfodol i'r gyfradd uned UPFSM pe cytunid ar hynny.

## Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio dichonoldeb creu cyfeiriadur o gyfleusterau cymunedol hygyrch.

Ymateb: Gwrthod

Mae Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi ystod o gamau gweithredu i greu newid parhaol, drwy ddull system gyfan sy'n sicrhau

bod symud yn cael ei ymgorfffori yng ngwead ein bywydau bob dydd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli fel y rhai ag anableddau.

Partneriaid lleol sydd yn y sefyllfa orau i gyfeirio at gyfleusterau cymunedol perthnasol yn effeithiol, yn seiliedig ar wybodaeth leol gynhwysfawr, addasrwydd, ac anghenion y boblogaeth, i sicrhau'r defnydd gorau o asedau cymunedol.

Goblygiadau ariannol – Amherthnasol